

Cynigion ar gyfer dulliau rheoli pysgota newydd i amddiffyn stociau eogiaid a sewin yng Nghymru.

Cwestiynau a ofynnir yn aml.

Adrannau

1. Terfynau cadwraeth (TC) ar gyfer rheoli eogiaid.....	1
2. Dull 'RS recriwtio-stoc' sewin.....	6
3. Eogiaid a sewin ifanc.....	7
4. Rhwydi, Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi ac is-ddeddfau	8
5. Pysgodfeydd gwialen, Dal a Rhyddhau ac is-ddeddfau Dulliau Rheoli.....	11
6. Materion eraill	15
7. Amserlen	20

1. Terfynau cadwraeth (TC) ar gyfer rheoli eogiaid

C1 Pam eich bod yn rhoi cymaint o bwyslais ar wybodaeth am ddalfeydd pan fyddwch yn asesu cydymffurfiad â Therfynau Cadwraeth?

Ateb

Allan o ~80 o'r prif afonydd eogiaid a sewin yn Lloegr a Chymru, mae naw (Tyne, Test, Itchen, Hants Avon, Frome, Tamar, Fowey, Dyfrdwy, Lune) ar hyn o bryd yn 'afonydd sy'n cael eu monitro'. Felly, mae ganddynt gownteri/trapiau i amcangyfrif nifer yr eogiaid (ac mewn rhai achosion, sewin) sy'n dychwelyd bob blwyddyn.

Mae pedair o'r afonydd hyn – Tyne, Tamar, Dyfrdwy a Lune yn cael eu dosbarthu'n 'Afonydd Mynegai' oherwydd y wybodaeth fiolegol ychwanegol a gesglir ganddynt am y stoc (e.e. oed, hyd, pwysau, rhyw, ac ati).

Yn ddelfrydol, byddai mesurau annibynnol ar y pysgodfeydd o lif eogiaid (a sewin) ar gael ar bob afon, ond mae adnoddau'n gyfyngedig ac mae'n annhebygol bod angen y lefel honno o ddata arnom beth bynnag.

Fodd bynnag, MAE gennym ddata ar faint o bysgod gaiff eu dal yn yr holl brif afonydd eogiaid a sewin. Ar y rhain, rydym yn defnyddio ffigurau ar gyfraddau ymelwa ar bysgod a gafwyd o'n rhwydwaith o afonydd sy'n cael eu monitro i amcangyfrif - o'r nifer sy'n cael eu dal - nifer y pysgod aeddfed sy'n silio a'u cyfraniad o ran eu hwyau er mwyn asesu cydymffurfiad â Therfynau Cadwraeth (TC).

C2 Mae dibynnu ar wybodaeth am ddalfeydd i wneud unrhyw asesiad yn ddiffygiol, mae cyfraddau dychwelyd trwydded yn wael ac yn dirywio, ac mae'n bosibl nad yw pysgotwyr yn cyhoeddi beth maent wedi'i ddal.

Fel y nodwyd uchod, mae ffigurau ar nifer yr eogiaid a sewin sy'n cael eu dal ar gael i brif afonydd Lloegr a Chymru; dyma rhai o'r setiau data hynaf a mwyaf cyson sydd gennym.

Ers cyflwyno'r system genedlaethol bresennol ar gyfer dychwelyd pysgod sy'n cael eu dal â gwialen ar ddechrau'r 1990au, mae gyfanswm y trwyddedau gwialen a werthir bob blwyddyn yn Lloegr a Chymru wedi parhau'n weddol sefydlog (cyfartaledd oddeutu 33,000), felly hefyd cyfran y trwyddedwyr sy'n dal a dychwelyd (cyfartaledd oddeutu 60%).

Mae'r rhan fwyaf o bysgod yn cael eu dal gan drwyddedwyr llawn a rhatach; ychydig iawn o bysgod sy'n cael eu dal gan drwyddedwyr tymor-byr ac iau. Gan ystyried y gwahaniaethau hyn, gellir amcangyfrif cyfradd gyhoeddi bod pysgod wedi'u dal (h.y. cyfran o'r holl bysgod y dywedir eu bod wedi cael eu dal). Mae'r amcangyfrifon hyn ar gyfartaledd oddeutu 90% ac maent wedi cael eu defnyddio fel ffactor cywiro a ddeilliwyd yn genedlaethol i gynhyrchu amcangyfrifon o'r holl bysgod a ddaliwyd â gwialen ar afonydd unigol o'r ffigurau dalfeydd a gyhoeddwyd ganddynt. Defnyddir yr amcangyfrifon hyn o gyfanswm y pysgod a ddaliwyd i gynhyrchu ffigurau ar nifer yr wyau a ddodwyd yn flynyddol ar gyfer asesu cydymffurfiad â Therfynau Cadwraeth.

Nid oes yr un system berffaith ar gyfer cofnodi nifer y pysgod sy'n cael eu dal, ond mae'n amlwg bod ystadegau ar y nifer sy'n cael eu dal yn rhoi darlun gwerthfawr i ni o stoc yn yr afonydd a pherfformiad pysgodfeydd. Mae hyn yn amlwg o'r (i) patrymau cyffredin sy'n bresennol mewn cofnodion dal pysgod annhebyg a gasglwyd dros sawl blwyddyn ac (ii) y berthynas gref sy'n bodoli rhwng nifer y pysgod sy'n cael eu dal ac amcangyfrifon annibynnol ar bysgodfeydd o faint y llif eogiaid a gafwyd o'r afonydd sy'n cael eu monitro.

Felly mae cofnodion dalfeydd yn gallu rhoi darlun hanesyddol unigryw ar nifer a chyfansoddiad stociau eogiaid a sewin (e.e. mae eu hangen i archwilio a deall effeithiau prosesau hirdymor - fel newid yn yr hinsawdd - a all ddigwydd dros ddegawdau) ond maent hefyd yn amlwg yn hanfodol i brosesau asesu stociau presennol.

Mae felly'n bwysig bod systemau cofnodi dalfeydd yn parhau i fod mor gyson ac effeithiol â phosibl er mwyn cynnal ansawdd y data a gesglir a sicrhau nad yw cywirdeb asesiadau cysylltiol mewn perygl. Mae cynnal ansawdd y cofnodion dalfeydd yn gyfrifoldeb y sefydliadau sy'n gyfrifol am gasglu data dal pysgod, ond mae hefyd yn gyfrifoldeb y pysgotwyr gan fod dyletswydd statudol arnynt i ddarparu gwybodaeth am ddalfeydd sy'n gywir.



C3 A yw'r Terfyn Cadwraeth (TC) yn ddigon uchelgeisiol?

Ateb

Mae Ffigur 1 yn yr adroddiad technegol yn cyfeirio at dri Pwynt Cyfeirio Biolegol:

- Terfyn Cadwraeth
- Targed Rheoli
- Uchafswm Allbwn Eogiaid Arian;

Mae'r TC wedi'i osod ar bwynt y 'Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf' h.y. ar bwynt sicrhau'r ddalfa fwyaf ar gyfartaledd (ar gyfer cromlin recriwtio-stoc penodol a llinell amnewidiad – gweler Ffigur 1) mewn pysgodfeydd.

Islaw'r TC (pwynt cyfeirio 'terfyn'), mae stociau yn dod yn fwyfwy bregus ac felly mewn perygl o ddiffannu. Felly mae ein 'hamcan rheoli' yn rhagofalus ac yn anelu at sicrhau bod stociau yn aros uwchben y TC am bedair blwyddyn allan o bob pump, ar gyfartaledd. Dyma yw'r Targed Rheoli – pwynt ar y gromlin recriwtio-stoc uwchben y TC sy'n diogelu stociau (gweler Ffigur 1). Mae ein gweithdrefnau cydymffurfio ystadegol wedi'u cynllunio i adnabod statws stociau yn erbyn yr amcan rheoli.

Gellid fod wedi defnyddio'r trydydd pwynt cyfeirio - Uchafswm Allbwn Eogiaid Arian - hefyd ar gyfer asesu stoc. Dyma'r mwyaf gwarchodol o'r tri phwynt cyfeirio gan ei fod yn ceisio galluogi digon o bysgod i silio er mwyn sicrhau'r nifer mwyaf o allbwn eogiaid arian o ddalgylch; felly byddai rheoli gyda'r nod o wireddu'r pwynt hwn yn gofyn am fwy o gyfyngiadau ar bysgodfeydd.

C4 Beth yw'r Strwythur Penderfynu?

Ateb

Mae'r Strwythur Penderfynu (Atodiad I) yn ddiagram llif syml i helpu deall y lefel a'r math o ymyrraeth rheoli pysgodfeydd sydd ei angen i ddelio gyda stociau sydd wedi'u hasesu'n ffurfiol fel rhai sy'n pasio ('ddim mewn perygl') neu'n methu ('mewn perygl') eu Terfynau Cadwraeth, neu mewn safle rhwng hynny ('mwy na thebyg ddim mewn perygl', 'mwy na thebyg mewn perygl').

Mae'r Strwythur Penderfynu wedi cael ei ddefnyddio i reoli pysgodfeydd eogiaid yn Lloegr a Chymru ers sawl blwyddyn ac felly bydd yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf sy'n ymwneud â physgodfeydd.



C5 Pam nad yw nifer y pysgod sy'n cael eu dal mor uchel ag yr oedd yn arfer bod er gwaethaf defnyddio TC i reoli stociau eog?

Ateb

Mae dau brif ffactor yn esbonio pam bod poblogaethau eogiaid yn is na'r lefelau a welwyd yn hanesyddol:

- (i) Problemau goroesi morol – y cyfraddau goroesi cyfredol yw'r rhai isaf a gofnodwyd (Adran 4.1), ac maent yn llai na thraean y gyfradd a gofnodwyd ~30 mlynedd yn ôl. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, o bob 100 eog arian sy'n gadael yr afon, byddai ~5 yn goroesi i ddychwelyd fel eogiaid aeddfed heddiw mewn cymhariaeth â ~15 dri degawd yn ôl. Mae'r dirywiad yng nghyfraddau goroesi morol wedi effeithio ar stociau eog ledled Gogledd yr Iwerydd, ac yn enwedig pysgod yn sector de'r gogledd-orllewin, gan gynnwys Lloegr a Chymru.
- (ii) Ansawdd amgylcheddol gwaeth na'r hyn a ragfynegyd gan ein model TC i eogiaid (sy'n tybio y bydd yna amgylchedd dŵr croyw dihalog); h.y. mae gallu dalgylchoedd i 'gario' yn nhermau cynhyrchu eogiaid arian yn llai na'r meincnod 'dihalog'. Mae hyn yn debygol o fod yn ffactor llai cyffredin na chyfraddau goroesi morol, ond gallai fod yn bwysig yn lleol.

Mae'r dirywiad yng nghyfraddau goroesi morol yn debygol o fod yn ganlyniad i amodau amgylcheddol gwael yn y môr a'r rheiny'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn destun ymchwil eang ledled Gogledd yr Iwerydd, gan gynnwys rhaglen NASCO SALSEA (gweler: <http://www.nasco.int/sas/salsea.htm>). Wrth gwrs, does dim llawer y gallwn ei wneud i fynd i'r afael ag amodau amgylcheddol morol sy'n newid (heblaw am ddiogelu dyfroedd yr aberoedd a'r glannau rhag datblygiadau niweidiol neu bysgodfeydd anghyfreithlon, ac ati). Felly mae'r cyfyngiadau cynyddol a osodwyd ar bysgodfeydd dros y 10-20 mlynedd diwethaf wedi bod yn angenrheidiol i ryw raddau i wneud iawn am gyfraddau goroesi morol is.

Mae Adran 4 yn edrych yn fanylach ar ffactorau allai fod yn effeithio ar gynhyrchiant pysgod mewn dŵr croyw; mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at rai o'r mesurau rheoli a roddwyd yn eu lle i fynd i'r afael â'r rhain.



C6 Pam eich bod yn cynnwys afonydd nad ydynt yn brif afonydd ac afonydd eogiaid sy'n adfer yn y cynigion lle nad ydych wedi gosod neu asesu TC neu Dargedau Rheoli?

Ateb

Ystyrir bod afonydd sy'n adfer ac sydd heb gael TC eto 'mewn perygl'. Y rheswm am hyn yw bod y prif ffactorau sy'n effeithio ar eogiaid aeddfed yn dychwelyd, yn enwedig cyfraddau goroesi morol, yn effeithio ar yr holl stociau yng Nghymru.

Nid oes tystiolaeth bod y stociau yn yr afonydd hyn mewn cyflwr gwell na'r prif afonydd eogiaid. Yn wir, mae'r ffaith bod y stociau yn fach o ran maint yn golygu eu bod yn debygol o fod yn fwy bregus na'r stociau yn y prif afonydd eogiaid.

C7 Sut fydd CNC yn delio gyda'r gostyngiad yn nifer y pysgotwyr yn yr asesiadau stoc yn dilyn Dal a Rhyddhau? Llai o bysgota = llai o bysgod = asesiad stoc gwaeth

Ateb

Mae yna risg y bydd cyflwyno Dal a Rhyddhau gorfodol a dulliau rheoli ychwanegol yn darbwyllo rhai pysgotwyr i beidio â physgota – ac felly bydd ymdrech, a dalfeydd, yn gostwng.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i amcangyfrif cyfraddau ymwela ar bysgod (a ddefnyddir i ddeillio maint y llif pysgod o'r dalfeydd ar afonydd lle nad oes cyfrif annibynnol gan y bysgodfa o nifer y pysgod sy'n dychwelyd) yn rhannol yn ystyried ymdrech physgota – ond cydnabyddir yn gyffredinol bod angen gwella'r dulliau hyn. Mae gwaith eisoes ar y gweill i wneud hyn.

Ail bryder yw y gallai ein dulliau asesu ddod yn annibynadwy iawn, ar afonydd lle mae dalfeydd yn gostwng i lefelau isel iawn – naill ai oherwydd bod llai o bysgotwyr yn physgota a/neu oherwydd bod stociau yn parhau i ddirywio – oherwydd bod ein dulliau asesu mor ddibynnol ar y dalfeydd.

Un ffordd i fynd i'r afael â hyn yw gwneud gwell defnydd o wybodaeth arall yn y broses asesu stoc, sef gwybodaeth sy'n annibynnol ar y pysgodfeydd - sef data arolwg trydanbysgota ar niferoedd pysgod ifanc. Defnyddir y dull hwn yn Iwerddon; yno, mae canlyniadau arolygon trydanbysgota ymdrech isel a amserir (5 munud) - sy'n caniatáu physgota mewn nifer o safleoedd ar y prif ddalgylchoedd bob blwyddyn - yn cael eu defnyddio i ganiatáu ail-agor pysgodfeydd sydd wedi'u cau oherwydd statws gwael y stociau. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid cyrraedd trothwy penodol (cyfartaledd) wrth gyfrif pysgod ifanc cyn y gellir caniatáu ail-agor pysgodfa (a bydd data dalfeydd ar gael eto i'w ddefnyddio i asesu stociau).

Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer ymgorffori data trydanbysgota ar bysgod ifanc yn ffurfiol yn ein gweithdrefnau asesu stoc yn ystod y misoedd nesaf. Mae hyn yn debygol o olygu defnyddio data o'r fath yn gyffredin ynghyd â data dalfeydd – ac nid yn unig pan fydd dalfeydd yn gostwng i lefelau isel iawn neu'n absennol hyd yn oed.

2. Dull 'RS recriwtio-stoc' sewin

C8 Pam eich bod wedi cyflwyno dull asesu newydd i sewin?

Ateb

Nid yw'r dull rydym wedi bod yn ei ddefnyddio (ers sawl blwyddyn bellach) i asesu sewin wedi bod yn seiliedig ar berfformiad y stoc, ond yn hytrach ar berfformiad y bysgodfa ('dalfa fesul uned ymdrech'/CPUE).

Dyma fu'r sefyllfa oherwydd, yn wahanol i eogiaid, nid oes dulliau cadarn ar gyfer gosod Terfynau Cadwraeth neu 'Bwyntiau Cyfeirio Biolegol' ar gyfer sewin wedi bod ar gael yn Lloegr a Chymru (nag yn unrhyw fan arall). Fodd bynnag, mae biolegwyr a rheolwyr pysgodfeydd wedi cydnabod ers tro bod angen datblygu dulliau i sewin sy'n seiliedig ar stociau, ac eleni, mae Gweithgor ICES wedi'i sefydlu gyda'r nod hwnnw (bydd y grŵp yn cyflwyno adroddiad yn 2019).

Cyn i'r Gweithgor hwn ddechrau ar ei waith, roedd CNC eisoes wedi dechrau datblygu dull asesu yn seiliedig ar stociau i sewin. Mae hyn yn defnyddio data ar ddalfeydd pysgota i ddeillio amcangyfrifon o lif y sewin a'r wyau sy'n silio yn debyg iawn i'r ffordd y mae setiau data tebyg yn cael eu defnyddio yng ngweithdrefnau cydymffurfio â Therfynau Cadwraeth ar gyfer asesu eogiaid yn Lloegr a Chymru. Er enghraifft, cymhwysu cyfraddau ymelwa ar bysgod tybiedig i ddal data i ddeillio amcangyfrifon o lif pysgod; addasu cymarebau rhyw safonol a pherthnasau rhwng pwysau a ffrwythlonedd i gynhyrchu ffigurau ar wyau sy'n silio.

Defnyddir y setiau data hyn i gynhyrchu perthnasau stoc a recriwtio 'ffug' ar gyfer stociau sewin mewn afonydd unigol, gan ddeillio pwyntiau cyfeirio o'r perthnasau hyn sy'n weddol debyg i'r Terfynau Cadwraeth a'r Targedau Rheoli a ddefnyddir i asesu eogiaid. Bydd hynny'n golygu y bydd modd defnyddio'r un gweithdrefnau cydymffurfio ystadegol sy'n seiliedig ar dueddiadau i asesu statws 'perygl' y stoc. Ceir disgrifiad o fanylion y dull hwn yn Adran 2.4

Felly, mae'r dull sy'n seiliedig ar stoc 'ffug' yn debygol o gynhyrchu dull asesu mwy ystyrlon yn fiolegol na'r dull CPUE, yn enwedig gan ei fod yn amcangyfrif potensial pob dalgylch i gynhyrchu sewin, ac yn gosod a gwerthuso pwyntiau cyfeirio perthnasol sy'n amddiffyn y stoc. Ymhellach, mae'r unedau asesu – fel pysgod sy'n silio neu wyau – yn haws i'w dehongli na CPUE wrth bennu ymatebion rheoli priodol.



Am y rhesymau hyn, mae'r asesiad sy'n seiliedig ar stoc 'ffug' wedi'i ddefnyddio yn yr Achos Technegol hwn. Gan mai dyma'r tro cyntaf y defnyddiwyd y dull hwn ar y fath raddfa, dylid craffu ar allbynnau yn ofalus a'u dehongli'n drylwyr. Mae addasiadau yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r dull seiliedig ar stoc 'ffug', ymhlith eraill, yn cael ei archwilio gan Weithgor ICES a disgwylir y bydd dulliau asesu newydd neu ddulliau wedi'u haddasu yn tarddu o waith y grŵp hwn.

3. Eogiaid a sewin ifanc

C9 Beth sydd wedi achosi'r gostyngiad sydyn yn nifer yr eogiaid a'r sewin ifanc?

Ateb

Roedd ein gwaith monitro pysgod blynyddol yn 2016 yn dangos gostyngiad amlwg yn nifer y silod eogiaid a brithyllod a oedd yn tarddu o silio yng ngaeaf 2015/16. Roedd yna hefyd ostyngiad cyffredinol yn niferoedd pysgod hŷn a oedd yn tarddu o silio yn 2014/15.

Nid oes cyswll i'r canlyniadau hyn. Roedd yr effaith yn helaeth ledled Cymru, gyda dirywiadau tebyg yn cael eu hadrodd yn Lloegr, yr Alban, Iwerddon a Ffrainc. Mae hyn yn awgrymu bod ffactorau achosol cyffredinol ar raddfa eang; fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd bod materion pwysig eraill ar waith ar raddfa mwy lleol.

2015 oedd y flwyddyn gynhesaf ers i gofnodion ddechrau (mae 2016 wedi curo hynny wedyn) ac yn benodol, dyma'r tymor silio cynhesaf o lawer ers i gofnodion ddechrau gyda thymereddau record ym mis Rhagfyr. O ganlyniad, roedd tymereddau'r dŵr yn effeithio'n niweidiol ar silio, fel y nodwyd eisoes mewn llenyddiaeth amrywiol.

Er bod tymereddau uchel yn rhan o'r broblem, maen bosibl bod ffactorau eraill mwy lleol hefyd ar waith gan gynnwys difrod a achoswyd gan lifoedd uchel mis Rhagfyr ac mewn rhai achosion, prinder pysgod yn silio.

Prif effaith hyn ar raddfa eang fydd llai o eogiaid a sewin aeddfed yn dychwelyd i nifer o afonydd yn 2018-2021, ac yn arbennig yn 2019 a 2020.

C10 Beth fydd canlyniad y gostyngiad yn nifer y pysgod ifanc?

Ateb

Rhagwelir y bydd gostyngiad sylweddol ac eang yn nifer y pysgod ifanc yn arwain at lai o eogiaid a sewin aeddfed yn dychwelyd i lawer o'n hafonydd rhwng 2019-2021.



Byddem yn disgwyl llifoedd pysgod arbennig o isel yn 2019 a 2020.

C11 Rydych yn gor-ymateb i un flwyddyn ddrwg o ddata pysgod ifanc.

Ateb

Er bod data pysgod ifanc o 2016 yn ddiglyfelyb yn enwedig yn nhermau nifer y silod eogiaid, mae yna dueddiadau pryderus ar i lawr mewn eogiaid a brithyll ifanc yn llawer o'n hafonydd. Roedd canlyniadau 2015 hefyd yn dangos gostyngiad yn y mwyafrif o'n hafonydd.

Rhan yn unig o'r dystiolaeth sy'n rhoi sylfaen i'r ymgynghoriad hwn yw data pysgod ifanc. Mae llawer o'r dystiolaeth i gefnogi'r ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar gyfraddau dychwelyd pysgod aeddfed a dalfeydd â gwialen.

C12 Pam gweithredu nawr? Oni ddylid aros hyd 2019?

Ateb

Na – ni ddylem oedi. Mae ein hasesiadau presennol wedi dangos bod stociau eogiaid a rhai stociau sewin eisoes dan bwysau mawr ac yn dod yn fwyfwy bregus.

Mae'r dystiolaeth ychwanegol hon yn dangos bod angen i ni gymryd camau brys i sicrhau nad yw stociau yn dod yn fwy bregus wrth ganiatau i bysgotwyr ddal lefel anghynladwy o bysgod pan nad oes digon o bysgod ar hyn o bryd yn dychwelyd i silio ac i gynnal poblogaethau presennol.

4. Rhwydi, Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi ac is-ddeddfau

C13 Pam nad ydych yn lleihau nifer y rhwydi?

Ateb

Mae Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi yn ddull rheoleiddio heb lawer o fin, ac yn cyfyngu'n unig ar nifer y rhwydi all bysgota. Hyd yn oed pan fydd cyfyngiad ar nifer y trwyddedi sydd ar gael, mae ein profiad blaenorol yn dangos bod gweithredwyr rhwydi yn cael eu diogelu'n gyfreithiol cyn belled â'u bod yn codi eu trwyddedau bob blwyddyn.

Mae llawer o drwyddedwyr presennol yn dewis peidio â physgota yn aml iawn.



Felly mae Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi bob amser yn cymryd llawer o amser i gael effaith (cymerodd tua 6-8 mlynedd i leihau nifer y trwyddedau ar y Cleddau o 8 i 6 yn dilyn Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi 2007).

Credwn y bydd yn llawer mwy effeithiol rheoli dalfeydd drwy gyflwyno is-ddeddfau i reoli dalfeydd.

Mae cynnal nifer y trwyddedau sydd ar gael yn rhoi peth gwarchodaeth i'r pysgodfeydd treftadaeth drwy gynnal y nifer presennol o drwyddedwyr.

C14 Mae Dal a Rhyddhau pysgod o rwydi yn nonsens, bydd cyfraddau goroesi yn isel iawn.

Ateb

Os gwneir hyn yn gywir, mae modd i lawer iawn o bysgod sy'n cael eu dal mewn rhwydi oroesi.

Daliwyd eogiaid a sewin a ddefnyddiwyd mewn astudiaethau tracio ar y Tywi a'r Ddyfrdwy yn yr 1980au a'r 1990au mewn rhwydi gan ddynion trwyddedig yn yr aber. Roedd y pysgod hyn wedi goroesi ac fe'u traciwyd drwy'r system afon hyd nes i'r tymor silio ddechrau.

Mae rhai wedi awgrymu bod pysgota mewn cwrwgl yn effeithio ar dagellau'r pysgod ac felly na fyddant yn goroesi. Fodd bynnag, mae rhwydi cwrwgl yn debycach i rwydi triphlyg na rhwydi tagell o ran y ffordd y maent yn gweithio, ac felly yn dal pysgod wedi'u 'bagio' yn hytrach na dal eu tagellau.

Unwaith bo pysgodyn yn y rhwyd, caiff ei dynnu allan a'i roi yn y cwrwgl; nid yw'n cael ei adael yn y rhwyd lle mae posibiliad o dagu neu ddod yn sownd yn y rhwyd.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y cwryglau a'r rhwydi seine wedi bod yn dilyn arferion Dal a Rhyddhau ers cyflwyno Is-Ddeddfau Cenedlaethol Eog Gwanwyn yn 1999, er bod nifer wedi'u heithrio ohonynt. Dyma gynsail pwysig.

C15 Nid oes lle i ddefnyddio rhwydi tra bydd stociau 'mewn perygl'.

Ateb

Rydym yn cytuno. Dim ond stociau cynaliadwy yn unig ddylai gael eu pysgota heb unrhyw gyfyngiad neu derfyn.

Rydym o'r farn bod angen i ni leihau ymelwa ar eogiaid i sero tra bod stociau mewn perygl.



Mae cyfanswm yr eogiaid sy'n cael eu dal gan rwydi yng Nghymru yn isel, sef llai na 200 ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r rhwydi yn bennaf yn targedu sewin, a'r ddalfa ar gyfartaledd oddeutu 1,600.

Er bod gennym bryderon ynghylch llawer o'n stociau sewin, nid ydynt ar hyn o bryd mor fregus â stociau eogiaid, ac felly gellir caniatu peth dal. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod llawer o'r stociau yn dychwelyd i fod yn gynaliadwy ac felly mae angen peth rheolaeth.

Wrth ystyried ein dull cyffredinol, rydym wedi ceisio trin pysgodfeydd gwialen a rhwyd yn gyfartal.

Rydym wedi cynnig mesurau a fydd yn cyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd unwaith eto. Mae'r mesurau hyn yn nodi:

- a. dylid rhyddhau holl eogiaid
- b. bydd gohirio agor y tymor hyd 1 Mai yn gwarchod sewin mwy o faint sy'n llifo ynghynt ac sy'n silio llawer. Ni fydd eogiaid a fyddai wedi cael eu dal a'u rhyddhau bellach ddim yn cael eu dal o gwbl.
- c. bydd y defnydd o rwydi yn dod i ben ar 31 Awst; ar ôl y dyddiad hwnnw, mae nifer yr eogiaid sy'n cael eu dal wedi bod yn debyg i'r nifer isel o sewin sy'n cael eu dal.

Mae cau pysgodfeydd gwialen a rhwyd yn opsiwn a ystyriwyd gennym; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r angen i gynnal yr elfennau economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r pysgodfeydd hyn.

C16 Sut fydd hyn yn effeithio ar bysgodfeydd rhwyd treftadaeth?

Ateb

Wrth ystyried ein dulliau, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r diddordeb mewn cynnal treftadaeth dulliau pysgota a pysgodfeydd unigryw.

Bydd sicrhau cynaliadwyedd stociau yn cael blaenoriaeth ar gynnal unrhyw ddull pysgota.

Fodd bynnag, nid yw cynnal treftadaeth o reidrwydd yn ddibynnol ar barhau gyda'r lefelau dal diweddar.

Credwn ein bod wedi llwyddo i gynnal agwedd gytbwys fel bod modd dal rhai pysgod wrth wneud cyfraniad sylweddol at sicrhau bod mwy o silio yn digwydd.



C17 A fydd gostyngiad ym mhris trwyddedau rhwyd i adlewyrchu'r ffaith bod eogiaid yn cael eu rhyddhau a bod y tymor sewin yn fyrrach?

Ateb

Bydd prisiau trwyddedau rhwyd yn aros yr un fath yn 2018. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r prisiau trwyddedau rhwyd cyfredol.

Newidiwyd prisiau trwyddedau rhwyd ddiwethaf yn 2007, ac ar hyn o bryd, maent yn cynhyrchu incwm blynyddol o tua £16,000 y flwyddyn yng Nghymru. Nid yw'r taliadau hyn yn ddigon i dalu costau'r gwasanaethau a ddarperir (ac nid yw'r trwyddedau gwialen ychwaith yn ddigon i dalu costau).

Mae gwahaniaeth mawr rhwng costau trwyddedau unigol yn y pysgodfeydd rhwyd gwahanol; maent yn amrywio o £79 i £582 fesul trwydded. Yn wreiddiol, roedd tollau rhwyd yn seiliedig ar y ddalfa gyfartalog fesul trwyddedwr yn y pysgodfeydd unigol.

Byddwn yn ystyried sut fydd cyfyngiadau newydd ar bysgodfeydd yn effeithio ar y ddalfa gyfartalog fesul trwyddedwr yn y pysgodfeydd amrywiol cyn adolygu.

C18 A fydd cynnig i brynu pysgodfeydd rhwyd?

Ateb

Na, ni fydd CNC yn cynnig hynny gan fod egwyddor wedi'i sefydlu o beidio â defnyddio arian cyhoeddus i ariannu symudiadau i brynu pysgodfeydd rhwyd.

Lle mae diddordebau pysgota preifat yn fodlon ystyried cau pysgodfeydd, efallai drwy ddigolledu pysgotwyr rhwyd i roi'r gorau i ddefnyddio rhwydi, mae'n bosibl y gallwn gynnig hwyluso trafodaethau i gynorthwyo partïon i ddod i gytundeb sy'n dderbyniol gan y naill ochr a'r llall. Ni ddylid defnyddio unrhyw arian cyhoeddus i ddigolledu pysgotwyr rhwyd.

5. Pysgodfeydd gwialen, Dal a Rhyddhau ac is-ddeddfau Dulliau Rheoli

C19 Am ba hyd y bydd y cynigion yn parhau?

Ateb

Rydym wedi cynnig y dylai'r mesurau newydd fod ar waith am 10 mlynedd, gydag adolygiad ar ôl 5 mlynedd. Mae'r cyfnod 10 mlynedd yn cyfateb yn fras i 2 genhedlaeth lawn o eogiaid.



Yn y dyfodol, hoffem archwilio opsiynau i weithredu mwy o newidiadau ystyrlon yn flynyddol lle gallai rheoliadau pysgota newid o bosibl bob blwyddyn (fel yr hyn sy'n digwydd yn Iwerddon a'r Alban).

C20 Pam nad yw afonydd ar y ffin (e.e. Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy) yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau arfaethedig Cymru gyfan ar gyfer dal pysgod?

Ateb

Rydym yn ymwybodol bod gan Afon Gwy gyfres o fesurau (gan gynnwys mesurau dal a rhyddhau statudol i amddiffyn eogiaid) sydd i fod i redeg tan 2021 a'n bod wedi ymrwymo i'r rhain ynghynt. Mae pysgodfa eogiaid Afon Hafren yn bennaf yn Lloegr, a bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain y mesurau yn nalgylch Afon Hafren, gan ddilyn ei dull 'pum pwynt'. Er bod pysgodfeydd eogiaid Afon Dyfrdwy yn bennaf yng Nghymru, mae rhai rhannau o'r afon yn Lloegr a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar y dull integredig.

Rydym yn bwriadu cynnwys mesurau rheoli daliadau mewn dogfen "Is-ddeddfau afonydd trawsffiniol" ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, a fydd yn destun ymgynghoriad ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn ddiweddarach eleni.

C21 Pam bod yr Afon Wysg wedi'i chynnwys yn y rheoliadau Dal a Rhyddhau o gofio mai'r asesiad stoc yw 'mwy na thebyg ddim mewn perygl'?

Ateb

Er bod yr Afon Wysg wedi sicrhau asesiad 'Mwy na Thebyg Ddim mewn Perygl' o drwch blewyn, mater o gael a chael yw ei statws o ran cydymffurfio a chyflawni ei hamcan rheoli, ac mae'n pasio yn aml o drwch blewyn yn unig.

Yn bwysicach na hynny, fodd bynnag, credwn fod y peryglon ynghylch y gostyngiad yn nifer yr eogiaid ifanc mor sylweddol fel y gellid cyfiawnhau cyflwyno'r mesurau i'r Afon Wysg.

C22 Pam gwahardd pysgota abwyd i eogiaid?

Ateb

Dangoswyd bod pysgota abwyd yn arwain at lefel cymharol uchel o farwolaethau yn dilyn rhyddhau'r pysgod mewn cymhariaeth â dulliau eraill o bysgota eogiaid. Mae gwahardd pysgota abwyd yn sicrhau mai dulliau sy'n hwyluso dal a rhyddhau llwyddiannus yn unig sy'n cael eu defnyddio i bysgota eogiaid ac mewn rhai achosion, pysgota am sewin.

Yn ein profiad ni, mae pysgotwyr sy'n defnyddio mwydod at ei gilydd yn bwriadu lladd y pysgod sy'n cael eu dal.

C23 Pam nad ydych wedi gwahardd pysgota abwyd i sewin?

Ateb

Wrth wrando ar yr adborth a dderbyniwyd yn rhai o'n digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, rydym yn ymwybodol bod llawer o bysgodfeydd yn canolbwyntio'n bennaf ar sewin. Mae'n bosibl ei bod yn anodd pysgota yno gyda dulliau eraill fel plu a sbinio os nad oes llifau uchel, ac mewn sawl achos, mae stociau'r pysgod y maent yn pysgota amdanynt yn gynaliadwy. Felly gellir cyfaddawdu er mwyn galluogi'r dulliau hyn i barhau.

Credwn y bydd cyflwyno mesurau i gyfyngu ar faint y bachyn a chyfyngu i un mwydyn yn helpu lleihau faint o eogiaid sy'n cael eu dal yn sgil pysgota am sewin. Bydd hyn yn galluogi bysgodfeydd sewin i barhau i bysgota'n effeithiol am sewin tra'n lleihau'r peryglon i eogiaid.

C24 Pam eithrio corgimwch o'r rheolau ynghylch pysgota abwyd?

Ateb

Ar ôl casglu tystiolaeth, cynnal trafodaethau a derbyn adborth gan randdeiliaid, mae'n amlwg bod y mwyafrif helaeth o bysgod sy'n cael eu dal gyda chorgimychiaid yn cael eu bachu ar flaen y geg ac felly mae ganddynt siawns uchel o oroesi ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod pysgota gyda chorgimychiaid yn arbennig o effeithiol mewn amodau dŵr isel yn ystod yr haf pan fydd tymereddau'r dŵr fel rheol uwchben 18 gradd Celsius. Mae eogiaid sy'n cael eu dal ar y tymereddau hyn ac uwch yn llawer llai tebygol o oroesi yn dilyn Dal a Rhyddhau.

C25 A oes cynigion i gyfyngu ar nifer y pwyntiau bachu ar lith neu bluen?

Ateb

Oes, rydym yn cynnig y dylid gwahardd y defnydd o fachau triphlyg a ddefnyddir i bysgota abwyd, sbin neu blu.

Mae yna berygl o fachu pysgod yn 'wael' wrth ddefnyddio bachau triphlyg. Ni ellir trin bachau triphlyg yn rhwydd na'u tynnu o feinwe pysgod yn annibynnol. Felly, mae'n bosibl y bydd ceisio tynnu bachau triphlyg yn cymryd mwy o amser. Mae'n bosibl y gellir ystyried defnyddio bachau sengl neu ddwbl sy'n haws i'w tynnu ac sy'n arbed amser.

C26 A fyddaf yn gallu defnyddio llithiau a thiwbiau sewin wyneb gyda bachau triphlyg gan mai ychydig iawn o eogiaid sy'n cael eu dal gyda'r nos?

Ateb

Mae'r cynnig ar gyfer gwahardd y defnydd o fachau triphlyg i eogiaid a sewin fel ei gilydd.

Derbynnir bod peidio â defnyddio bachau triphlyg yn arfer da o ran pysgota Dal a Rhyddhau. Bydd y darpar fesur hwn yn helpu i leihau'r amser a gymer i dynnu bachau oddi ar y pysgod ac felly'n cynorthwyo'r broses o'u rhyddhau drwy leihau'r amser y mae'r pysgod allan o'r dŵr.

Nid yw bachau dwbl wedi'u gwahardd ac rydym yn ymwybodol bod dyluniadau bachau dwbl bellach ar gael i blu fel tiwbiau.

C27 Pam bod terfyn 60cm ar hyd slot (terfyn ar hyd y pysgodyn y gellir ei gadw) wedi'i gynnig i sewin?

Ateb

Mae sewin 60cm o hyd ychydig dan 6 pwys; mae'r rhain fel rheol yn silio'n lluosog. Gan ddefnyddio'r dull Wyau Gydol Oes y Dyfodol, a ddatblygwyd fel rhan o'n hymagwedd, gellir ystyried bod y pysgod hyn yn rhan werthfawr o'r stoc silio.

Mae lleihau nifer y pysgod hyn sy'n cael eu lladd yn y bysgodfa gwialen yn gymesur gyda'r darpar ostyngiadau yn y pysgodfeydd rhwyd. Mae hefyd yn targedu'r pysgod sydd wedi'u harbed o ganlyniad i'r gostyngiadau yn y nifer sy'n cael eu dal gyda rhwydi.

Derbynnir na fydd terfyn 60cm yn effeithio ar lawer o afonydd, ac awgrymwyd y gallai 50cm fod yn briodol mewn rhai dalgylchoedd. Roeddem eisiau cynnig mesur Cymru gyfan i holl stociau sewin a fyddai'n adlewyrchu'r pryderon cyffredinol ynghylch stociau silio. Byddai terfyn 50cm yn targedu afonydd fel y Tywi yn anghymesur. Wrth gwrs, mae pysgodfeydd yn rhydd i gyflwyno mesurau llymach yn wirfoddol.

C28 Ni fydd Dal a Rhyddhau yn gwneud unrhyw wahaniaeth; er enghraifft, nid oes tystiolaeth bod is-ddeddfau eog gwanwyn wedi gweithio.

Ateb

Roedd Is-ddeddfau Cenedlaethol Eog Gwanwyn yn un o sawl mesur a roddwyd ar waith yn 1999 i atal y dirywiad yn nifer yr eogiaid gwanwyn yn ein hafonydd.

Ers hynny, mae rhai afonydd yn dangos ychydig o gynnydd yn nifer y pysgod gwanwyn sy'n dychwelyd (er enghraifft, afonydd Dyfrdwy, Hafren a Gwy), gan awgrymu bod hyn wedi bod yn llwyddiant.

Nid oes ychwaith unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw wedi bod yn fanteisiol i boblogaethau eogiaid.

Cydnabyddir nad pysgodfeydd yw'r prif ffactor neu'n wir yr unig ffactor o ran newidiadau mewn stociau eogiaid. Ni fydd gostyngiad ychwaith yn y gyfradd ymelwa ar ben ei hun o reidrydd yn arwain at wireddu Terfynau Cadwraeth ac Amcanion Rheoli yn gyflym. Fodd bynnag, pan fydd stociau islaw eu terfyn cadwraeth, mae'n amlwg y bydd lleihau ymelwa gan bysgodfeydd yn help tuag at sicrhau pysgodfeydd mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

C29 Os yw amodau yn parhau i ddirywio, a fyddech yn ystyried cau pysgodfeydd?

Ateb

Ystyrir bod cau pysgodfeydd yn opsiwn o fewn yr achos technegol, fodd bynnag, nid ydym yn ffafrio'r opsiwn hwn ar hyn o bryd. Mae ein dull yn cydnabod yr angen i gynnal y manteision economaidd-gymdeithasol a fyddai'n cael eu colli pe byddai pysgodfeydd yn cau.

6. Materion eraill

C30 Pam gorfodol – oni fyddai mesurau gwirfoddol yn well?

Ateb

Ers sawl blwyddyn, rydym wedi bod yn lleisio a thrafod y pryderon am stociau ac eogiaid aeddfed sy'n dychwelyd, ac mewn rhai achosion sewin hefyd, gan nodi'r angen am fesurau gwirfoddol brys.

Yn ystod yr amser hwn, bu cynnydd yn nifer y pysgod sy'n cael eu dychwelyd. Mae yna rai enghreifftiau da lle mae pysgodfeydd unigol a rhai afonydd wedi gwneud ymdrechion sylweddol. Fodd bynnag, mae yna enghreifftiau nodedig hefyd lle nad yw hyn wedi digwydd a lle nad yw'r lefel yn dderbyniol.

Yn rhai o'n hafonydd sydd 'Mewn Perygl', mae cyfraddau Dal a Rhyddhau gwirfoddol islaw 60%.

Mae trafodaethau ac adborth yn awgrymu bod clybiau wedi cymryd mesurau gwirfoddol cyn belled ag y gallant, a'i bod nawr fyny i CNC gyflwyno mesurau pellach os oes angen.



Awgrymwyd hefyd y dylem sicrhau bod afonydd i gyd ar yr un lefel. Dylid nodi nad oes unrhyw beth i rwystro perchnogion pysgodfeydd rhag gweithredu mwy o fesurau diogelu, ac rydym yn sicr yn cymeradwyo ymdrechion y rhai sydd eisoes wedi gwneud hynny.

C31 Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei defnyddio i'r adolygiad canol tymor? A fyddwch chi'n dileu mesurau os yw stociau'n gwella?

Ateb

Rydym yn adolygu stociau ac yn adrodd arnynt yn flynyddol. Rydym yn cynnig y byddai adolygiad llawn ar ôl 5 mlynedd yn adolygu statws stociau, effeithiolrwydd ac effaith y mesurau.

Yn y cyfamser, nid oes unrhyw gynigion am unrhyw adolygiad a fyddai'n dod â'r mesurau i ben o fewn 5 mlynedd. Y rheswm am hyn yw ein bod o'r farn bod angen cyfnod o 5 mlynedd o leiaf i gael canlyniad da yn nhermau nifer ychwanegol o bysgod yn silio.

Hoffem hefyd o bosibl edrych ar opsiynau ar gyfer adolygiadau blynyddol a fyddai'n gallu troi afonydd 'ymlaen ac i ffwrdd' yn debyg i'r dulliau sydd ar waith ar hyn o bryd yn Iwerddon a'r Alban.

C32 Pam nad ydym yn cynnig gosod cyfyngiad bag?

Ateb

Credwn nad oes digonedd o eogiaid ar gael i'w dal ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai gosod cyfyngiad bag o un pysgodyn hyd yn oed yn cyflawni ein hymrwymadau a'n hamcanion.

Mae cyflwyno cyfyngiad bag yn gallu rhoi'r argraff ei bod yn dderbyniol mynd â physgod ac yn creu targed i anelu ato; gallai hynny wedyn olygu bod mwy o bysgod yn cael eu lladd.

Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, byddai'n rhaid cyflwyno cynllun tagio carcas, a chredwn y byddai hyn yn creu biwrocratiaeth ddiangen ac yn gostus ar hyn o bryd.

C33 Os ydych yn cyflwyno Dal a Rhyddhau gorfodol - oni fyddai angen trwydded sewin a physgota bras yn unig arnaf?

Ateb

Os ydych yn targedu eogiaid neu sewin, yna mae angen trwydded gwialen fudol.



Rydym yn cynnig bod Dal a Rhyddhau yn orfodol yn achos 100% o eogiaid, ond mae yna gyfnodau estynedig lle y gellir cymryd sewin, er bod yn rhaid rhyddhau sewin mawr.

Mae achosion llwyddiannus wedi'u dwyn yn erbyn pysgotwyr sydd wedi honni eu bod yn pysgota am frithyll brown neu bysgod bras, ond lle roeddynt mewn gwirionedd yn targedu eogiaid neu sewin.

Mae'r drwydded gwialen bresennol yn caniatáu pysgota drwy Loegr a Chymru. Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i Gymru yn unig, tra bod Lloegr yn ystyried dulliau gwahanol.

C34 Fyddwch chi ddim yn gallu gorfodi'r rheoliadau hyn oherwydd prinder beiliaid.

Ateb

Un o'n tair blaenoriaeth allweddol yw 'Dull gweithredu sy'n targedu er mwyn sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys is-ddeddfau, yn ein pysgodfeydd rhwyd a gwialen trwyddedig'.

Ar hyn o bryd, mae gennym 16.4 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n hollol warantedig. Byddwn yn targedu'r gwaith cydymffurfio mewn ymateb i'r peryglon i bysgodfeydd a'r wybodaeth a dderbynnir am weithgarwch anghyfreithlon.

Rydym yn barod i ddefnyddio ystod llawn ein pwerau i fynd i'r afael â physgota anghyfreithlon, er bod yn rhaid i ni hefyd ystyried a chydbwysu ein gweithredoedd gyda'n cyfrifoldeb fel rheoleiddiwr teg ac atebol.

C35 A fydd nifer y trwyddedau a werthir yn gostwng o ganlyniad i'r newidiadau hyn?

Ateb

O ystyried gwybodaeth a dderbyniwyd o leoliadau eraill, rydym yn ymwybodol y gall fod gostyngiad tymor byr yn nifer y trwyddedau a werthir. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydbwysu hyn yn erbyn y bygythiad i stociau yn gyffredinol, a chredwn y gall gostyngiad tymor byr fod yn gam hanfodol tuag at adfer stociau fel eu bod yn gynaliadwy.

Byddwn yn parhau i fonitro gwerthiannau ac ymdrech bysgota yn flynyddol, a byddwn yn cynnwys hyn yn ein hadolygiad.



C36 Mae materion eraill yn bygwth stociau pysgod; beth ydych chi'n ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain?

Ateb

Cydnabyddir nad dalfeydd yw'r prif fater ynghylch stociau gwael a bregus. Fodd bynnag, ni ellir parhau i ganiatau lladd pysgod tra bod stociau yn anghynaliadwy gan y bydd eu lladd yn peryglu stociau ymhellach.

Rydym felly wedi dilyn cyngor rhyngwladol ar reoli stociau pysgod.

Mae Adran 5, "Heriau i stociau" yn rhoi mwy o wybodaeth ar y ffactorau sy'n effeithio ar stociau a sut ydym yn mynd i'r afael â hwy. Credwn eu bod yn dangos ein bod yn cydnabod eu pwysigrwydd, a'n bod wedi ystyried y materion hyn wrth ffurfio ein cynigion ar gyfer rheoli dalfeydd.

Dyma'r heriau a ystyriwyd: Teulu'r eogiaid yn goroesi yn y môr, Maint dŵr; Ansawdd dŵr, Llygredd amaethyddol, Fforwm Rheoli Tir Cymru, Coedwigaeth, Adar rheibus, Afiechyd a Pharasitiaid, Pysgota anghyfreithlon

C37 Byddai stocio yn cynyddu nifer y pysgod sy'n dychwelyd i afonydd Cymru, felly pam bod CNC wedi gwahardd stocio?

Ateb

Cynhaliodd CNC adolygiad llawn o stocio a'i effeithiau a pheryglon posibl, ac o ganlyniad i'r effeithiau negyddol posibl, penderfynwyd dirwyn holl raglenni stocio eogiaid a sewin i ben. Ni chaniateir unrhyw raglenni stocio pellach, ac eithrio'r rhaglenni hynny y cadarnhawyd bod eu hangen ar gyfer ymchwil penodol iawn a dargedwyd yn ofalus ac, mewn achosion eithafol iawn, caniateir adfer stociau.

C38 Beth yw pwynt ymateb i'r ymgynghoriad a chithau eisoes wedi gwneud eich penderfyniad?

Ateb

Byddwn yn ystyried ac yn ymateb i unrhyw sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'n cynigion. Byddwn yn ceisio annog unrhyw wrthwynebiad i gael ei ddileu. Bydd unrhyw wrthwynebiadau sy'n parhau i fodoli yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiad a'n hargymhellion ar gyfer cymeradwyaeth a gyflwynir i Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru.

Rydym eisoes wedi cael blwyddyn dda o drafodaeth gyda grwpiau pysgodfeydd ac wedi dadansoddi'r atebion o holiadur ynghylch rheoliadau ymelwa ar bysgod. Yn

ystod y broses, rydym wedi gwranddo ar y safbwyntiau a fynegwyd ac wedi addasu ein dull a'n cynigion.

C39 A fydd clybiau yn cael eu digolledu am gollu aelodau?

Ateb

Na. Fel yn achos pysgodfeydd rhwyd, ni ddefnyddir arian cyhoeddus i ddigolledu am ostyngiad yn aelodaeth clybiau. Mae rhai clybiau wedi gweld gostyngiad dros y degawd diwethaf, tra bod eraill wedi llwyddo i gynyddu aelodaeth, yn enwedig aelodau iau.

Rydym yn cydnabod y gall fod effeithiau posibl a byddwn yn cyfeirio gwaith ein Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy i helpu clybiau a chymdeithasau i gynnal lefelau cyfranogi.

C40 Cyfyngiadau bag a thagiau. Pan na allech gyflwyno system dagio a chaniatáu un tag?

Ateb

Mewn nifer o amgylchiadau, mae cyfyngiadau bag yn gallu sicrhau bod ein hadnoddau yn parhau'n gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, tra bod cyfyngiadau bag yn cynorthwyo i rannu'r adnodd, credwn nad oes gennym unrhyw stociau eogiaid ar hyn o bryd mewn cyflwr i allu caniatáu cadw pysgod a bod yn gynaliadwy.

Byddai'n anodd cyflwyno tagiau gyda'r system trwydded gwialen sy'n cynnwys Lloegr a Chymru, a byddai angen i ni ystyried system ar wahân.

Bydd cyflwyno tag sengl yn rhoi'r argraff bod stociau'n gynaliadwy a bod digonedd o bysgod silio. Ni chredwn fod gennym unrhyw stociau eogiaid ar hyn o bryd mewn cyflwr i allu caniatáu cadw pysgod a bod yn gynaliadwy.

C41 Beth ddylwn i ei wneud gyda physgod meirw neu sydd ar fin marw?

Ateb

Yn anffodus, mae'n anochel y bydd pysgod weithiau'n marw o'u pysgota. Derbynnir bod hyn yn ganlyniad, er ein bod yn gobeithio mai ychydig iawn o hyn a fydd yn digwydd – yn enwedig o ystyried gofynion y dull rheoli.

Yn ffodus, mae ein profiad ar yr Afon Wysg yn dangos bod nifer y pysgod sy'n marw o gael eu dal yn isel.



Mae'r peryglon ynghylch cadw afonydd yn agored a chaniatau i bysgota barhau yn cynnal y manteision cymdeithasol ac economaidd tra'n ceisio gwarchod stociau yn yr afon.

Os yw pysgodyn yn marw ar ôl iddo gael ei ddal, dylid cadw'r pysgodyn yn yr afon a dylai'r pysgotwr ffonio ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid (0300 0653000). Os gallwn, byddwn yn casglu'r carcass o'r afon. Mae'n bosibl y byddwn yn gallu casglu gwybodaeth fiolegol werthfawr o'r carcass.

7. Amserlen

C42 A fydd unrhyw newidiadau yn dod i rym ar gyfer tymor pysgota 2018?

Ateb

Y nod yw sicrhau fod y mesur yn ei le erbyn dechrau tymor 2018.

C43 Ble allaf gael mwy o wybodaeth?

Ateb

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu drwy e-bostio

Fisheries.Wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk